

Digimap for Schools

Llythyr i'n Hysgol

Paula Owens

Adnodd Dysgu Daearyddiaeth Cyfnod Allweddol 1



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap ar gyfer Adnoddau Daearyddiaeth Ysgolion

Canllaw i athrawon yw'r adnoddau hyn i ddangos i'r dosbarth cyfan neu i gyfarwyddo myfyrwyr unigol yn ôl y galw. Mae pob gweithgaredd yn cynnwys nifer o syniadau y gallwch eu teilwra i gwrdd ag anghenion eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys taflenni gwaith i'w dosbarthu'n uniongyrchol i'r disgyblion.

Teitl: Llythyr i'n Hysgol

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod Allweddol 1	Dod o hyd i'ch ysgol trwy ddefnyddio cod post	Unrhyw ysgol

Gwybodaeth	Dod o hyd i leoedd. Deall pwrpas map o ran dangos 'ble'. Defnyddio chwiliadau cod post. Ychwanegu labelu. Creu ac argraffu mapiau.
Cysylltu â'r cwricwlwm (Lloegr)	Dod o hyd i leoedd a'u disgrifio, defnyddio geirfa ddaearyddol addas.
Cysylltu â'r cwricwlwm (Cymru)	Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd: Gwneud mapiau syml, dod o hyd i leoedd a chanfod ble mae un lle mewn perthynas â lleoedd eraill.
Cwricwlwm yr Alban dros Ratoriaeth	Deilliannau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lle a'r Amgylchedd:0-07a, 1-14a.

Gweithgaredd

Deall bod cyfeiriadau'n cynnwys gwybodaeth am leoliadau lleoedd a gwybod sut mae modd defnyddio cod post i ddod o hyd i le ar fap trwy chwilio am, a dod o hyd i'ch ysgol.

Cyflwyniad

Mae'r term 'cod post' yn cyfeirio at godau post a ddefnyddir yn y Deyrnas Unedig. Fe'u cyflwynwyd gan y Post Brenhinol[®] rhwng 1959 ac 1974. Mae'r rhain yn alffaniwmerig, sy'n golygu eu bod nhw'n cynnwys cymysgedd o lythrennau a rhifau. Cyfeirir at god post llawn fel 'uned cod post' ac, fel arfer, mae'n cyfeirio at nifer gyfyngedig o gyfeiriadau neu safle dosbarthu mawr unigol. Dylai unrhyw le yn y wlad sy'n gallu derbyn post gael cod post; nid oes gan leoedd nad ydynt yn derbyn post, er enghraifft meysydd parcio, godau post.

Mae geiriadur daearyddol i ysgolion Digimap yn cynnwys pob un o'r 250,000 enw lle sydd i'w gweld ar fapiau papur Map Landranger yr Arolwg Ordnans (graddfa 1:50 000). Mae hyn yn cynnwys dinasoedd, trefi, pentrefi, mynyddoedd, ffermydd, llynnoedd a chulforoedd. Nid yw'r geiriadur daearyddol yn cynnwys adeiladau nac enwau strydoedd, felly os nad ydych yn gallu dod o hyd i'r lle rydych yn edrych amdano, ceisiwch chwilio am y dref neu'r pentref mawr agosaf yn lle.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Os nad yw'r disgyblion wedi gwneud y math hwn o weithgaredd o'r blaen, mae'n bosibl y byddwch eisiau defnyddio rhai golygfeydd o'r awyr a golygfeydd lletraws o'r awyr i ddechrau, gan ddefnyddio ffotograffau neu Google Maps™, er mwyn helpu'r plant i gyfarwyddo â lleoliad yr ysgol.

Prif Weithgaredd

Dangoswch lythyr gyda chyfeiriad yr ysgol arno a thrafodwch y cod post. Oes unrhyw un wedi gweld neu glywed am god post o'r blaen? Pam ydym ni'n defnyddio codau post? Esboniwch fod codau post yn helpu'r Post Brenhinol i drefnu a dosbarthu'r post yn haws ac oherwydd bod y rhan fwyaf o bobl yn gwybod beth yw eu cod post, mae'n ffordd hawdd o ddod o hyd i rywle ar fap.


Tasgau


1. Agorwch Digimap for Schools ar fwrdd gwyn rhyngweithiol (BGRh). Defnyddiwch y bar graddfa i symud allan mor bell ag y gallwch er mwyn dangos Ynysoedd Prydain yn llawn a rhannau o orllewin Ewrop i'r disgyblion. Gofynnwch a oes unrhyw un yn gallu pwyntio at leoliad yr ysgol. Trafodwch pa mor anodd yw hi oherwydd bod y map yn dangos ardal mor eang. Cyflwynwch y porwr a mewnbynnwch god post yr ysgol (peidiwch ag anghofio'r gofod yng nghanol y cod post).



2. Bydd *Digimap for Schools* yn agor map ar raddfa 1:10 000, wedi'i ganoli ar y cod post, felly dylai eich ysgol fod yn y canol. Cloiwrch at y map o leiaf un lefel gan ddefnyddio'r + ar y bar graddfa. Nawr, byddwch yn edrych ar MasterMap® yr Arolwg Ordnans ar gyfer ardal eich ysgol. Cliciwch ar y symbol hwn i agor y map ar y sgrin a'i wneud yn llai.




3. Ychwanegwch farciwr at leoliad yr ysgol. Gwasgwch  i agor y bar offer nodiadau (*Annotations Toolbar*), edrychwch yn yr adran 'Draw and Create' a dewiswch y pin coch. Cliciwch ar y map lle dymunwch roi'r marciwr. Os gwnewch gamgymeriad, dewiswch y rhwbiwr yn yr adran addasu cyn clicio ar y marciwr y dymunwch ei ddileu.





Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>



4. Pan mae'r marciwr yn ei le, cliciwch ar  yn yr adran addasu ('Modify') a chlicio'r marciwr. Bydd blwch testun yn agor er mwyn i chi ychwanegu enw eich ysgol.





5. Os ydych chi eisiau symud y label a'r pin, cliciwch  a symud y marciwr a'i dynnu i'r safle newydd.

Mae'n bosibl na fydd rhai o'r disgyblion iau yn gallu mynd ymhellach na hyn mewn un sesiwn. Bydd eraill, o bosibl, yn gallu parhau ac ychwanegu mwy o fanylion.

6. Closiwch mor agos at y map ag sy'n bosibl ac amlygwch y maes chwarae awyr agored a nodweddion eraill yr ysgol. Defnyddiwch y bar offer nodiadau (*Annotations Toolbar*) unwaith eto i farcio a labelu'r nodweddion. Arbrofwch trwy ddefnyddio symbolau gwahanol, a chyn ychwanegu'r testun, newidiwch y maint, y teip a'r lliw.



Os oes gennych chi lawer o nodiadau ar y map, dewiswch  er mwyn pylu'r map cefndir a gwneud i'r wybodaeth newydd sefyll allan.




Rhowch ddigon o amser i'r disgyblion i archwilio a chwarae gyda'r nodweddion hyn.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

7. Os ydych chi eisiau cadw'r map, rhowch deitl iddo a'i gadw mewn ffolder.



Mynd ymhellach

- Trafodwch beth sy'n digwydd pan rydych yn closio i mewn at y map a thynnu allan oddi wrth y map. Ceisiwch dynnu allan mor bell ag y gallwch er mwyn esbonio lleoliad yr ysgol yng nghydestun Prydain Fawr.
- Argraffwch gopiâu o'r map rydych wedi'i gadw a mynd â nhw tu allan er mwyn archwilio tir yr ysgol. Chwiliwch am nodweddion sy'n cael eu dangos ar y map a dewch o hyd i rai newydd i'w hychwanegu. Defnyddiwch gwmpawd i ddod o hyd i'r gogledd ac ychwanegwch hwn at y map. Defnyddiwch y math hwn o ymarfer i helpu disgyblion i sylweddoli sut mae mapiau yn cael eu cyflunio i gyfeiriad y gogledd, y de, y dwyrain a'r gorllewin.
- Casglwch, archwiliwch a mapiwch godau post lleol.
- Gofynnwch i ddisgyblion ddod o hyd i'w cyfeiriadau a'u codau post fel gweithgaredd gwaith cartref.

Dolenni

http://en.wikipedia.org/wiki/Postcodes_in_the_United_Kingdom

Canfyddwr codau post y Post Brenhinol: <http://www.postcodes.royalmail.com/postcode-finder>

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013



Trwyddedir y gwaith hwn yn unol â Thrwydded Anfasnachol – Priodoliad Creadigol Cyffredin.